Eglurhad Data:

Gwahaniaethau rhwng Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 a mesur amddifadedd aelwydydd ar sail Cyfrifiad 2021

Awduron: Nia Jones, Dr Ian Thomas

Dyddiad: Medi 2024

Mae'r Eglurhad Data hwn yn crynhoi'r prif wahaniaethau y dylid eu hystyried wrth ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019 a Chyfrifiad 2021 i astudio mesurau amddifadedd.

Bwriedir iddo fod yn fan cychwyn i helpu arwain ymchwilwyr sydd am ddefnyddio'r setiau data MALlC 2019 ac/neu Gyfrifiad 2021 fel rhan o brosiect ymchwil cyswllt data cymeradwy, ac i roi adborth i ddatblygiad a dogfennaeth setiau data yn y dyfodol. Mae'r nodyn hwn yn rhoi arweiniad ar ddau fesur posibl o amddifadedd y gellid eu defnyddio. Mae wedi'i anelu'n bennaf at ddadansoddwyr sy'n gweithio gyda data cysylltiedig ar gyfer Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

Cyflwyniad

Nid tlodi yn unig y mae amddifadedd yn ei olygu. Mae'n cyfeirio at angen heb ei ddiwallu a achosir gan ddiffyg adnoddau.

Gall fod agweddau materol a chymdeithasol i amddifadedd. Amddifadedd materol yw diffyg adnoddau ffisegol – bwyd, cysgod, a dillad – sydd eu hangen i gynnal safon bywyd penodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae mwy nag un ffordd o ddiffinio a mesur amddifadedd. Dylai dadansoddwyr ystyried cryfderau a chyfyngiadau pob math o fesur wrth benderfynu ar y ffordd orau i fynd i'r afael â chwestiwn ymchwil penodol.

MALIC 2019 yw'r mesur swyddogol o amddifadedd ardaloedd bach yng Nghymru o hyd. Fodd bynnag, gallai mesur amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021 fod yn ddefnyddiol ar gyfer:

- dadansoddiad sydd â diddordeb mewn effeithiau ar lefel aelwydydd, gan gynnwys dadansoddi data cysylltiedig, e.e., drwy Fanc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (CDGDd)
- nodi pocedi llai o amddifadedd, er enghraifft mewn ardaloedd mwy gwasgaredig
- dadansoddiad o aelwydydd sy'n profi sawl math o amddifadedd
- crynodiad o aelwydydd mewn amddifadedd o fewn ac ar draws gwahanol grwpiau neu amgylchiadau poblogaeth e.e. mathau o aelwydydd, deiliadaeth ac ati
- cymhariaeth ag ardaloedd yn Lloegr

Ynglŷn â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 yn darparu safleoedd amddifadedd ardal ar gyfer ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (ACEHI, ffiniau 2011) yng Nghymru. Gellir defnyddio hwn ar wahân hefyd ar gyfer wyth parth amddifadedd MALIC.

Mae MALIC yn fesur cymharol o amddifadedd lluosog ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n llywio amrywiaeth o benderfyniadau ar anghenion lleol, megis ariannu neu dargedu rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer ardaloedd lleol.

Mae mynegeion amddifadedd lluosog yn diffinio amddifadedd mewn ffordd eang i gwmpasu ystod o agweddau sy'n ymwneud â bywydau pobl. Maent yn cynrychioli amddifadedd lluosog fel casgliad o sawl math o amddifadedd. Mae MALIC yn cael ei gyfrifo o wyth parth (neu fath) gwahanol o amddifadedd: Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Mynediad i Wasanaethau, Tai, Diogelwch Cymunedol, a'r Amgylchedd Ffisegol. Mae pob parth yn cael ei lunio o ystod o wahanol ddangosyddion. Mae'r Mynegai cyffredinol wedi'i adeiladu o swm pwysedig o'r sgôr amddifadedd ar gyfer pob parth, sy'n darparu un mesur o sut mae ardaloedd yn cymharu ar yr ystod o ddangosyddion amddifadedd.

Mae ardal yn dioddef o amddifadedd lluosog os, ar gyfer mwy nag un o'r parthau, mae gan yr ardal grynodiad o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd. Po fwyaf yw nifer y parthau y mae crynodiadau uchel o amddifadedd ynddynt, y mwyaf yw'r amddifadedd cyffredinol mewn ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr un bobl yn dioddef mathau lluosog o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl gweld gorgyffwrdd sylweddol.

Mae MALIC yn darparu ffordd o nodi ardaloedd yn y drefn o'r lleiaf i'r mwyaf amddifad. Nid yw'n darparu mesur o lefel absoliwt o amddifadedd mewn ardal (er bod rhai o'r dangosyddion sylfaenol yn gwneud hynny), ond yn hytrach a yw ardal yn fwy neu'n llai amddifad o gymharu â holl ardaloedd eraill Cymru. I grynhoi MALIC a thynnu allan tueddiadau allweddol, mae safleoedd yn aml yn cael eu categoreiddio i ddengraddau, cwintelau neu grwpiau amddifadedd eraill.

Gan ei fod yn fynegai cymharol, efallai na fydd newid yn safleoedd MALlC dros amser yn golygu newid mewn lefelau amddifadedd absoliwt. Gellir defnyddio MALlC i edrych ar y newid mewn safleoedd amddifadedd cymharol rhwng iteriadau, er enghraifft pa ardaloedd sydd wedi gadael, ymuno neu aros yn y grŵp mwyaf amddifad. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli unrhyw newidiadau gan fod argraffiadau gwahanol o MALlC wedi'u cyfrifo'n wahanol, i gynhyrchu'r ciplun gorau posibl o amddifadedd ardal ar yr adeg y cânt eu cynhyrchu.

Mae'n bosibl defnyddio data ar gyfer y parthau unigol (fel incwm, iechyd neu dai) neu hyd yn oed un o'r 47 dangosydd gwaelodol, os yw'n fwy perthnasol i'r dadansoddiad.

Gallwch gael mynediad at holl ddata MALlC ar StatsCymru, trwy Daenlen Data Agored ochr yn ochr ag adroddiadau MALlC 2019, neu gallwch weld canlyniadau ar fapiau trwy offeryn rhyngweithiol MALlC. Mae yna hefyd god post i chwilio safle MALlC ar gael fel Ffeil ar StatsCymru.

Mae Canllawiau MALlC 2019 yn lle da i ddechrau chwilio am fwy o gefndir am MALlC gan gynnwys ei gyfyngiadau.

Sut mae data MALlC 2019 yn cael eu casglu?

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn cael ei ddiweddaru bob 3 i 5 mlynedd, gyda'r fersiwn diweddaraf yn cael ei gyhoeddi yn 2019 - bydd iteriad nesaf MALlC yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2025.

Mynegai yw MALlC, hynny yw, grŵp o fesuriadau ar wahân sy'n cael eu cyfuno'n un rhif. Ar gyfer MALlC 2019 roedd y mesuriadau hyn yn cynnwys 47 o wahanol ddangosyddion yn darparu data ar gyfer pob un o'r 1,909 o ardaloedd bach (yr ardal cynnyrch ehangach haen is neu ACEHIau) yng Nghymru. Daw'r dangosyddion o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cofnodion gweinyddol (e.e. cofnodion ysgol, iechyd a throseddu), data'r Cyfrifiad, mesuriadau ffisegol megis setiau data ansawdd aer a pherygl llifogydd, a nifer fach o ddangosyddion wedi'u modelu.

Mae mwy o gefndir ar gael trwy Adroddiad Technegol MALlC 2019.

Ynglŷn â mesur amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021

Mae mesurau amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021 yn darparu sawl baner amddifadedd ar lefel aelwydydd ledled Cymru a Lloegr. Mae cofnodion Cyfrifiad 2021 ar gael ar gyfer cysylltu data trwy Fanc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (CDGDd), neu mae agregau lefel uwch yn cael eu cyhoeddi fel tablau Cyfrifiad arferol.

Yn rhan o Gyfrifiad 2021, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi llunio newidyn sy'n nodi a yw aelwyd yn ddifreintiedig a hynny ar sail pedair nodwedd. Diffinnir aelwyd yng Nghyfrifiad 2021 yn un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu bobl luosog yn byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfleusterau coginio a lle byw, megis ystafell fyw neu fwyta. Nodweddion neu ddimensiynau mesur amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021 yw:

- cyflogaeth: pan fo unrhyw aelod o aelwyd, nad yw'n fyfyriwr amser llawn, naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar oherwydd salwch neu anabledd hirdymor.
- addysg: nid oes gan unrhyw berson yn y cartref addysg lefel 2 o leiaf (pump TGAU neu fwy (gradd A* i C neu radd 4 ac uwch) neu gymwysterau cyfwerth), ac nid yw unrhyw berson 16 i 18 oed yn fyfyriwr amser llawn.
- iechyd ac anabledd: mae gan unrhyw berson yn y cartref iechyd cyffredinol sy'n "wael" neu'n "wael iawn" neu'n cael ei nodi'n anabl. Ystyrir bod pobl sydd wedi asesu eu gweithgareddau o ddydd i ddydd fel rhai wedi'u cyfyngu gan gyflyrau neu salwch corfforol neu feddyliol hirdymor yn anabl. Mae'r diffiniad hwn o berson anabl yn bodloni'r safon gyson ar gyfer mesur anabledd ac mae'n unol â Deddf Cydraddoldeb (2010).

- tai: mae llety'r aelwyd naill ai'n orlawn, gyda sgôr deiliadaeth o 1 neu lai yn negyddol (sy'n awgrymu bod ganddo un ystafell neu ystafell wely yn llai sy'n ofynnol ar gyfer nifer y preswylwyr), neu ei fod mewn annedd a rennir, neu heb wres canolog.

Mae Cyfrifiad 2021 yn dosbarthu aelwydydd yn gategorïau ar sail nifer y dimensiynau y maent yn cael eu hamddifadu arnynt, yn amrywio o ddim yn amddifad mewn unrhyw ddimensiwn, i amddifadedd yn y pedwar dimensiwn. Mae cofnodion Cyfrifiad 2021 a ddelir gan Fanc Data CDGDd yn cynnwys dangosyddion i ganfod a yw aelwyd yn amddifad ym mhob un o'r pedwar dimensiwn.

Mae'r SYG wedi datgan y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r newidyn hwn fel mesur uniongyrchol o amddifadedd pan, er enghraifft, nad yw'n adlewyrchu'n uniongyrchol incwm neu gyfoeth aelwyd. Mae'r SYG yn esbonio nad yw'r dosbarthiad hwn yn darparu mwy o wybodaeth am amddifadedd nag y mae'r diffiniadau'n ei ganiatáu.

Mae'n bosibl y bydd rhai defnyddwyr yn codi pryderon ynghylch dosbarthu cartref yn "amddifad" dim ond oherwydd bod person o'i fewn yn anabl, a all gynnwys y rhai â salwch cyfyngus hirdymor nad yw'n cael fawr o effaith ar eu gallu i gyflawni tasgau o ddydd i ddydd (yn unol â diffiniad Deddf Cydraddoldeb (2010).

Am y rheswm hwn, gall fod yn synhwyrol defnyddio trothwy uwch ar gyfer amddifadedd, er enghraifft os yw aelwyd yn bodloni dau neu fwy o'r pedwar dimensiwn o amddifadedd, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r cysyniad o amddifadedd "lluosog". I roi teimlad o'r niferoedd dan sylw, yn 2021, roedd 33.4% (450,000) o aelwydydd yng Nghymru yn amddifad mewn un dimensiwn, roedd 16.0% (215,000) yn amddifad mewn dau ddimensiwn, roedd 4.5% (61,000) yn amddifad mewn tri dimensiwn a 0.2% yn amddifad. (2,000) ym mhob un o'r pedwar dimensiwn. Nid oedd y 45.9% arall (619,000) yn amddifad mewn unrhyw ddimensiwn.

Mae geiriadur Cyfrifiad 2021 yn rhoi mwy o fanylion am fesur amddifadedd aelwydydd y Cyfrifiad. Gallwch gael y set ddata amddifadedd aelwydydd, wedi'i hagregu ar wahanol lefelau (e.e., AC, ACEHI, neu Awdurdod Lleol), neu weld data amddifadedd aelwydydd ar fap. Fel arall, gallwch hefyd greu set ddata wedi'i addasu.

Gellir gwneud ymholiadau i ddefnyddio cofnodion Cyfrifiad 2021 mewn ymchwil sy'n seiliedig ar gysylltiadau data am Gymru a phoblogaeth Cymru drwy wefan Banc Data CDGDd. Ar ôl trafodaeth gwmpasu gychwynnol i benderfynu ar ymarferoldeb prosiect, gall dadansoddwyr wedyn wneud cais ffurfiol i Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth CDGDd i gael mynediad at ddata.

Sut mae data Cyfrifiad 2021 yn cael eu casglu?

Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 gan y SYG ddydd Sul 21 Mawrth 2021 i roi darlun i ni o'r holl bobl a'r aelwydydd yng Nghymru a Lloegr..

Fe'i cynhaliwyd gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau i sicrhau cywirdeb. Roedd dulliau casglu data'n cynnwys: holiaduron ar-lein; holiaduron papur; ymwelodd swyddogion maes â chartrefi i gynorthwyo preswylwyr i lenwi holiaduron; ac yn ogystal â data hunan-gofnodedig, defnyddiodd y cyfrifiad gofnodion gweinyddol hefyd i wella cywirdeb.

Mae mwy o gefndir ar gael drwy adroddiad Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg SYG.

Gwahaniaethau rhwng MALlC 2019 a mesur amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021

Mathau o amddifadedd - Mae MALlC yn cwmpasu ystod ehangach o barthau a dangosyddion wrth fesur amddifadedd, e.e. mynediad at wasanaethau, yr amgylchedd ffisegol a diogelwch cymunedol, a all fod yn bwysig ar gyfer cwestiynau ymchwil penodol. Fodd bynnag, mae mesur amddifadedd Cyfrifiad 2021 wedi'i

gynllunio i ddal amddifadedd lluosog o fewn yr un cartref, tra bod MALIC yn nodi'r amddifadedd a brofir ar draws ardaloedd.

Cyfnod cyfeirio – mae mesur Cyfrifiad 2021 yn fwy diweddar na'r MALIC diweddaraf, sy'n cwmpasu data o wahanol gyfnodau rhwng 2011 a 2019. Gall hyn fod yn llai pwysig os mai tueddiadau amddifadedd hirdymor sy'n bwysig yn eich dadansoddiad, yn fwy na'r newid diweddar.

Daearyddiaeth – Yr uned leiaf o ddaearyddiaeth a fesurir gan MALIC 2019 yw'r ardal cynnyrch ehangach haen is (ACEHI) fel y'i diffinnir yng Nghyfrifiad 2011, o'i chymharu ag ardaloedd cynnyrch (AC) ar gyfer setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd o Gyfrifiad 2021, er mai'r lefel isaf y ddaearyddiaeth sydd ar gael ar gofnodion Cyfrifiad 2021 yn CDGDd yw lefel ACEHI. Mae Ardaloedd Cynnyrch yn cynnwys 40 i 250 o aelwydydd gyda phoblogaeth breswyl arferol o 100 i 625 o bobl, tra bod ACEHIau rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd gyda phoblogaeth breswyl arferol o 1,000 i 3,000 o bobl. Gallai'r raddfa fwy ar gyfer MALIC olygu bod dadansoddiad yn methu â nodi pocedi bach o amddifadedd (er enghraifft, mewn ardaloedd mwy gwasgaredig sy'n cynnwys ychydig o bentrefi gwahanol), os yw'r amddifadedd cyfartalog ar draws yr ACEHI ehangach yn gymharol isel.

Cysylltu data – Mae cofnodion Cyfrifiad 2021, gan gynnwys y mesur amddifadedd cartrefi, ar gael i'w cyrchu drwy Fanc Data CDGDd. Mae CDGDd yn cadw data lefel poblogaeth sydd heb ei nodi ar gyfer Cymru, y gall ymchwilwyr cymeradwy ei gyrchu i wneud ymchwil sydd o fudd i'r cyhoedd. Gellir cysylltu cofnodion cyfrifiad ar lefel unigol â data arall a gedwir gan CDGDd, e.e. cofnodion gofal iechyd ac addysg Cymru. Gellir cysylltu MALIC, a'i ddangosyddion cyfansoddol, o fewn CDGDd hefyd ond dim ond ar lefel ACEHI (neu ddaearyddiaethau uwch).

Ffynhonnell data – mae dangosyddion y cyfrifiad yn hunan-gofnodedig tra bod MALIC yn cynnwys rhai mesurau hunan-gofnodedig ochr yn ochr â data gweinyddol ar hawlwyr budd-daliadau, cofnodion addysg ac iechyd ac ati.

Cwmpas – mae MALIC yn mesur amddifadedd ar draws ACEHIau yng Nghymru yn unig, ac nid oes modd cymharu'r safleoedd â'r rhai o Fynegai Amddifadedd Lluosog (MALI) ar gyfer gwledydd eraill y DU, fel yr eglurir ymhellach yn yr erthygl SYG hon (ychydig yn hen ond yn dal yn berthnasol). Mae mesur amddifadedd y cyfrifiad yn darparu data cymaradwy ar draws Cymru a Lloegr. Mae data ar gyfer Cyfrifiad 2021 Gogledd Iwerddon yn cynnwys mesur tebyg oamddifadedd aelwydydd, ac mae'n ymddangos bod cynlluniau i ryddhaumesur tebyg ar gyfer Cyfrifiad 2022 yr Alban. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto i ba raddau y bydd data o bob cyfrifiad yn gymaradwy.

Dadansoddiad o dueddiadau – oherwydd bod MALIC yn fesur cymharol, ni ellir ei ddefnyddio i fesur newid mewn lefelau amddifadedd absoliwt rhwng iteriadau; ac oherwydd bod ei gyfrifiad yn esblygu dros amser, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newid mewn lefelau amddifadedd cymharol. Yn yr un modd, mae'r SYG yn cynghori yn erbyn cymharu'r mesur amddifadedd aelwydydd ar gyfer Cyfrifiad 2011 a 2021, oherwydd newidiadau i'r newidynnau sylfaenol, er enghraifft yn y dimensiynau addysg a thai.


Sut mae'r data'n cymharu ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru?

Mae'r dadansoddiad isod yn crynhoi data Cyfrifiad 2021 ar aelwydydd amddifad mewn o leiaf dau ddimensiwn i lefel ACEHI, i archwilio sut mae hyn yn cymharu â MALIC 2019.

Sylwch fod y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y ffiniau ACEHI newydd a ddiffinnir ar ôl Cyfrifiad 2021, yn hytrach na'r ACEHIau sy'n seiliedig ar 2011 sy'n sail i MALIC 2019. Mae cyfanswm newydd o 1,917 o ardaloedd (1,909 yn flaenorol), ac er bod 1,837 heb eu newid, unwyd 45 yn 22 ardal newydd, a rhannwyd 27 yn 58 o ardaloedd newydd.

Yn hytrach na hepgor yr 80 o ardaloedd newydd hynny sydd heb rengoedd MALIC 2019, at ddiben y dadansoddiad archwiliadol hwn rydym wedi amcangyfrif y safleoedd fel a ganlyn: lle mae ardal 2011 wedi'i rhannu mae ardaloedd 2021 newydd yn cael yr un safle â'r ardal wreiddiol; lle mae ardaloedd 2011 wedi'u huno, ardal 2021 newydd sy'n cael y safle mwyaf amddifad o'i hardaloedd cyfansoddol yn 2011. Felly nid yw ystod y safleoedd yn union yr un fath ar gyfer y ddau fesur, ond mae'r effaith ar y canfyddiadau yma'n debygol o fod yn fach iawn.

Ffigur 1: Safle yn ôl cyfran yr aelwydydd sy'n amddifad ar ddau neu fwy o ddangosyddion amddifadedd Cyfrifiad 2021, yn ôl safle c 2019, ar gyfer ACEHIau



Disgrifiad o Ffigur 1: Mae hwn yn plotio'r safleoedd ar gyfer pob ACEHI yn ôl cyfran yr aelwydydd sy'n amddifad ar ddau neu fwy o ddangosyddion amddifadedd y Cyfrifiad (ACEHI gyda'r gyfran uchaf yn safle 1) yn erbyn safle MALIC 2019 pob ardal. Mae lefel uchel o gydberthynas yn amlwg, er gyda rhai allanolion.

Ffynonellau: MALIC 2019 Llywodraeth Cymru a Chyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021.

Mae Ffigur 2 isod yn dangos nifer yr ACEHIau ym mhob un o grwpiau amddifadedd MALIC 2019 o gymharu â grwpiau tebyg a grëwyd ar gyfer mesur amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021 (amddifadedd ar ddau ddangosydd neu fwy). Mae'r grwpiau amddifadedd wedi'u cynllunio i gael grwpiau llai yn y pen mwyaf amddifad, lle mae'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd yn fwy nag ar y pen llai amddifad. Mae ACEHIau mewn dengraddau amddifadedd 4 i 10 wedi'u cyfuno'n ddau grŵp mwy: dengraddau 4 i 5, neu'r 30-50% mwyaf amddifad; a dengraddau 6 i 10, neu'r 50% lleiaf amddifad.

Mae'r groeslin yn Ffigur 2 yn dangos nifer yr ardaloedd sydd yn yr un grŵp amddifadedd ar y ddau fesur. Uwchben y groeslin mae niferoedd yr ardaloedd sydd mewn grŵp mwy amddifad ar fesur MALIC nag ar fesur y cyfrifiad. Islaw'r groeslin mae niferoedd yr ardaloedd sydd mewn grŵp mwy amddifad ar fesur y Cyfrifiad nag ar fesur MALIC.

Ffigur 2: Safle yn ôl cyfran yr aelwydydd sy'n amddifad ar ddau neu fwy o ddangosyddion amddifadedd Cyfrifiad 2021, yn ôl safle MALIC 2019, ar gyfer ACEHIau


	Cyfrifiad 2021 (aelwydydd mewn amddifadedd lluosog):					
MALIC 2019:	**10% mwyaf amddifad**	**10-20% mwyaf amddifad**	**20-30% mwyaf amddifad**	**30-50% mwyaf amddifad**	**50% lleiaf amddifad**	**Cyfanswm**
10% fwyaf amddifad	**138**	39	12	2	0	**191**
10-20% fwyaf amddifad	47	**82**	46	14	2	**191**
20-30% fwyaf amddifad	6	57	**72**	47	9	**191**
30-50% fwyaf amddifad	1	14	57	**213**	102	**387**
50% lleiaf amddifad	0	0	5	108	**844**	**957**
Cyfanswm	**192**	**192**	**192**	**384**	**957**	**1917**

Disgrifiad o Ffigur 2: Matrics yn dangos nifer yr ACEHIau mewn gwahanol gategorïau o amddifadedd yn ôl MALIC 2019 yn erbyn Cyfrifiad 2021. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd (70%) yn yr un grŵp amddifadedd ar gyfer y ddau fesur, dim ond 60 ardal (3%) yn amrywio gan ddau grŵp amddifadedd, a 5 ardal gan dri grŵp amddifadedd.


Ffynonellau: MALIC 2019 Llywodraeth Cymru a Chyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021.

Mae hyn yn golygu, yn ymarferol, bod dadansoddiad sy'n gofyn am gategoreiddio yn ôl amddifadedd ar gyfer ACEHIau, gan ddefnyddio naill ai mesur MALIC 2019 neu fesur aelwydydd mewn amddifadedd lluosog Cyfrifiad 2021 yn debygol o arwain at ganfyddiadau tebyg.

Mae Ffigurau 3 a 4 yn dangos mapiau o ardaloedd bach wedi'u lliwio i ddangos eu grwpiau amddifadedd yn ôl safle MALIC 2019 (Ffigur 3) a Chyfrifiad 2021 o aelwydydd mewn amddifadedd lluosog (Ffigur 4). Mae'r rhain yn rhoi syniad o'r amrywiad gofodol rhwng y mesurau.




Ffigur 3: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019



Disgrifiad o'r Ffigur 3: Map o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, yn dangos pocedi o amddifadedd cymharol uchel yn ninasoedd a chymoedd De Cymru, ac yn rhai o drefi arfordirol a gororau Gogledd Cymru.

Ffigur 4: Aelwydydd o amddifadedd lluosog Cyfrifiad 2021



Disgrifiad o Ffigur 4: Map o aelwydydd Cyfrifiad 2021 mewn amddifadedd lluosog ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, heb fod yn annhebyg i ffigur 3, ond gyda chyfran uwch yn ôl pob golwg o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwy (mwy gwasgaredig)yn y categori 50% lleiaf amddifad.



Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r setiau data hyn

Mae yna ddangosyddion cyfyngedig o amddifadedd aelwydydd ar lefel poblogaeth i'w defnyddio mewn astudiaethau cyswllt data. Felly gallai cysylltu â chofnodion Cyfrifiad 2021 wella ymchwil drwy ddarparu dangosydd o amddifadedd aelwydydd. Fel arall, gallai mesur amddifadedd Cyfrifiad 2021 gael ei agregu a'i gysylltu ar gyfer gwahanol unedau daearyddol.


Dylai dadansoddwyr ystyried a fyddai cysylltu â Chyfrifiad 2021 yn darparu canfyddiadau mwy cadarn yn ôl amddifadedd, gan ystyried y gwahaniaethau rhwng mesurau amddifadedd y Cyfrifiad a MALIC a amlinellwyd uchod.

Gallai defnyddio'r mesur amddifadedd aelwydydd fod yn well mewn rhai amgylchiadau oherwydd, wrth ddefnyddio dull seiliedig ar ardal fel MALIC 2019, un cyfyngiad allweddol yw y bydd rhai pobl amddifad bob amser yn byw mewn ardaloedd llai amddifad, ac na fydd pawb yn byw mewn ardaloedd amddifad ardal yn amddifad eu hunain.

Mae'r ffigurau isod yn rhoi ymdeimlad o raddfa ar gyfer y mater hwn, drwy edrych ar ledaeniad aelwydydd mewn amddifadedd lluosog yn ôl Cyfrifiad 2021 yn ôl amddifadedd ardal MALIC 2019.

Fodd bynnag, wrth ddehongli'r rhain, cofiwch gyfyngiadau'r mesur hwn o Gyfrifiad 2021 nad yw'n darparu mwy o wybodaeth am amddifadedd nag y mae'r diffiniadau'n caniatáu ar ei gyfer, fel yr amlinellwyd mewn adran flaenorol.

Ffigur 5: Cyfran yr aelwydydd yn ôl nifer dangosyddion amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021, ar gyfer aelwydydd ym mhob cwintel o MALIC 2019




Disgrifiad o Ffigur 5: Mae'r siart bar hwn yn dangos, yn y cwintel (pumed rhan) o ardaloedd mwyaf amddifad yn ôl MALIC 2019, nad yw 33% o aelwydydd yn amddifad ar unrhyw un o ddangosyddion amddifadedd aelwydydd y Cyfrifiad. I'r gwrthwyneb, yn y cwintel lleiaf amddifad o ardaloedd yn ôl MALIC 2019, mae 11% o aelwydydd yn amddifad ar ddau neu fwy o ddangosyddion amddifadedd aelwydydd y Cyfrifiad.

Ffynonellau: MALIC 2019 Llywodraeth Cymru a Chyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021.



Ffigur 6: Nifer yr aelwydydd amddifad ar ddau neu fwy o ddangosyddion amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021, yn ôl dengradd MALIC 2019



Disgrifiad o Ffigur 6: Mae'r siart colofn hwn yn dangos amcangyfrif o 97,200 o aelwydydd (neu 7% o holl aelwydydd Cymru) yn dod o ardaloedd yn hanner lleiaf amddifad Cymru ac yn amddifad ar ddau neu fwy o ddangosyddion amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021. Gyda'i gilydd maent yn cyfrif am dros draean (35%) o'r holl aelwydydd amddifad, yn ôl mesur Cyfrifiad 2021.

Ffynonellau: MALIC 2019 Llywodraeth Cymru a Chyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021.



Casgliad

I gloi, mae mwy nag un ffordd o ddiffinio a mesur amddifadedd. Dylai dadansoddwyr ystyried cryfderau a chyfyngiadau pob math o fesur wrth benderfynu ar y ffordd orau i fynd i'r afael â chwestiwn ymchwil penodol.

MALIC 2019 yw'r mesur swyddogol o amddifadedd ardaloedd bach yng Nghymru o hyd. Fodd bynnag, gallai mesur amddifadedd aelwydydd Cyfrifiad 2021 fod yn ddewis arall defnyddiol.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle gallai dadansoddi elwa o ddefnyddio elfennau o'r ddau fesur gyda'i gilydd, neu archwilio'r rhyngweithio rhyngddynt. Er enghraifft, ystyried ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd lluosog o fewn aelwydydd (drwy Gyfrifiad 2021), a lefel uchel o amddifadedd ar sail ardal o ran diogelwch cymunedol dyweder (drwy barth MALIC). Neu i archwilio effaith gwahanol effeithiau ar ardaloedd ac aelwydydd, megis bod o aelwyd aml-amddifad mewn ardal lai amddifad.

Cydnabyddiaethau

Mae'r Egurhad Data YDG Waleshwn wedi'i gynhyrchu gan dîm amlddisgyblaethol o'r byd academaidd a'r llywodraeth gan gynnwys Nia Jones, Prif Ystadegydd a Phennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a Dr Ian Thomas, Cymrawd Ymchwil a Chyd-arweinydd thema ymchwil tai a digartrefedd YDG-Cymru. Bwriedir iddo fod yn fan cychwyn i helpu arwain ymchwilwyr sydd am ddefnyddio'r setiau data MALlC 2019 a/neu Gyfrifiad 2021 fel rhan o brosiect ymchwil cyswllt data cymeradwy, ac i roi adborth i ddatblygiad a dogfennaeth setiau data yn y dyfodol. Ni fwriedir rhoi darlun cyflawn o'r gwaith a wneir o fewn y maes hwn na rhaglen waith YDG Cymru. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr Eglurhad Data hwn wedi'i hadolygu gan dîm sy'n gweithio ochr yn ochr â'r ddwy ffynhonnell ddata a derbynnir ei bod yn gywir ar adeg cyhoeddi. Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr Eglurhad Data hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau sefydliadau partner YDG Cymru.

Cynhyrchwyd gan YDG Cymru

Gwefan: YDGCymru.org
Twitter: @ADR_Wales

Mae YDG Cymru yn dwyn ynghyd arbenigwyr gwyddor data yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (SYCEDC) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'n datblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu drwy ddefnyddio Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe i gysylltu a dadansoddi data dienw. Mae YDG Cymru yn rhan o ADR UK, sy'n cael ei gyllido gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesi y DU).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Cathrine.E.Richards@Swansea.ac.uk

ADR UK
Data-driven change

UKRI Economic and Social Research Council

Partneriaid YDG

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SAIL DATABANK

WISERD
Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data